Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Warant i Breswylwyr Cymdeithasau Tai

www.cymru.gov.uk

Datblygwyd y Warant i Breswylwyr Cymdeithasau Tai gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymgynghoriad â Cartrefi Cymunedol Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru.

75% wedi'i ailgylchu
recycled

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010
CMK-22-10-130
E4590910

Y WARANT I BRESWYLWYR CYMDEITHASAU TAI

Tudalen

Ynglŷn â'r Warant 1
Mae hwn yn egluro beth yw ystyr y Warant, ar gyfer pwy y mae hi, a beth y gallwch ei ddisgwyl gan eich landlord.

Sut mae pethau'n cael eu rhedeg 3
Mae hwn yn dweud wrthych pwy sy'n gyfrifol yn y gymdeithas a sut y dylai pethau gael eu rhedeg yn iawn.

Cael eich Ailgartrefu 4
Mae hwn yn dweud wrthych beth yw eich hawliau a beth i'w ddisgwyl os ydych yn denant, a'ch bod yn gwneud cais i symud.

Symud i Mewn 5
Mae hwn yn egluro beth yw cytundebau meddiannaeth ac yn dweud pa gefnogaeth y dylai eich landlord ei rhoi i chi.

Byw yn eich Cartref 6
Mae hwn yn sôn am fod yn ddiogel yn eich cartref, sut i'w reoli, a beth i'w wneud os yw niwsans, aflonyddwch neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amharu arnoch.

Talu am eich Cartref 8
Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am rent a thaliadau gwasanaeth.

Atgyweiriadau a Gwelliannau 10
Mae hwn yn dweud wrthych am roi gwybod am atgyweiriadau y mae angen eu gwneud, gwaith mawr, gwneud eich gwelliannau eich hun a hawlio iawndal.

Gwybodaeth 13
Mae hwn yn dweud wrthych am ansawdd y gwasanaeth y dylech ei ddisgwyl, pa wybodaeth y dylech ddisgwyl ei chael a'r math o wybodaeth a gedwir amdanoch.

Ymgynghori a Chymryd Rhan 15
Mae hwn yn dweud wrthych sut i gael dweud eich dweud ac i gymryd mwy o ran yn y gwaith o redeg y gymdeithas dai.

Gwneud Cwyn 16
Mae hwn yn dweud wrthych beth i'w wneud a sut i gwyno os ydych o'r farn nad yw'r gymdeithas tai yn gwneud pethau'n iawn.

Cysylltiadau Defnyddiol 18
Rhai cysylltiadau defnyddiol os ydych am gael mwy o help a chyngor.

YNGLŶN Â'R WARANT

Ar gyfer pwy mae'r Warant hon?

Mae'r warant hon yn berthnasol i chi os ydych yn denant, lesddeiliad, rhan-berchennog neu'n ddeiliad trwydded cymdeithas dai sydd wedi ei chofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ("y Cynulliad") a bod eich cartref wedi ei ddarparu gyda chymorth arian cyhoeddus. Mae'r term "preswylydd" a ddefnyddir yn y Warant hon yn golygu unrhyw un o'r uchod.

Gall hefyd fod yn berthnasol i chi os ydych yn byw mewn math arall o annedd gyda chymdeithas tai yn gweithredu fel landlord neu asiant rheoli.

Dylech ddarllen y Warant drwyddi ac os nad ydych yn siŵr a yw rhai rhannau ohoni'n berthnasol i chi, gofynnwch i'ch cymdeithas tai ei hegluro.

Beth yw ystyr y Warant?

Mae dros 100 o gymdeithasau tai cofrestredig yng Nghymru, a rhyngddynt maent yn rheoli dros 122,000 o gartrefi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithredu fel rheoleiddiwr ac mae wedi cyhoeddi "Cod Rheoleiddio" y mae'n rhaid i bob gymdeithas tai gofrestredig gydymffurfio ag ef. Mae copïau o'r cod hwn ar gael ar wefan tai'r Cynulliad yn www.tai.cymru.gov.uk.

Yn unol â'i rôl fel rheoleiddiwr cymdeithasau tai, mae'r Cynulliad wedi cynhyrchu'r Warant hon. Ei phwrpas yw eich cynghori ynglŷn â'r canlynol:

- Beth sy'n ofynnol i'ch landlord ei wneud i gydymffurfio â'r Cod Rheoleiddio.
- Unrhyw safonau ychwanegol a ystyrir yn arfer da ac y dylai eich landlord gydymffurfio â hwy yn arferol.

Efallai y bydd rhai cymdeithasau tai yn cynnig mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y Warant hon, ond ni ddylai'r un ohonynt gynnig llai.

Bydd y Cynulliad yn cymryd camau rhesymol i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatiau angen os gofynnir am hynny, gan gynnwys tâp, print bras a chyfieithiadau. Os byddwn yn cael anhawster i gydymffurfio â'ch cais, byddwn yn trafod yr ateb gorau gyda chi.

Sut y gwyddoch beth i'w ddisgwyl gan eich landlord?

Mae'n ofynnol i bob Cymdeithas Tai gydymffurfio â Safonau Perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a mabwysiadu arferion gorau ym mhob agwedd ar ei gweithgareddau.

Mae eich hawliau cyfreithiol yn gynwysedig yn eich cytundeb tenantiaeth, prydles, trwydded neu gytundeb ysgrifenedig arall yr ydych yn ei lofnodi wrth i chi symud i mewn. Hefyd mae nifer o Ddeddfau Seneddol amrywiol yn ategu eich hawliau cyfreithiol. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'ch hawliau, gofynnwch i'ch cymdeithas tai eich cynorthwyo neu ceisiwch gyngor gan gyfreithiwr neu ganolfan gynghori.

Gall eich hawliau amrywio gan ddibynnu a ydych yn denant, yn ddeiliad trwydded neu'n lesddeiliad, ac yn ôl y math o gytundeb sydd gennych. Mae'n bwysig cofio bod gennych chi gyfrifoldebau fel tenant, deiliad trwydded neu lesddeiliad. Efallai yr effeithir ar eich hawliau os nad ydych yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Ceir gwybodaeth hefyd ynglŷn â'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau yn y cytundeb yr ydych yn ei lofnodi wrth i chi symud i fewn, megis eich cytundeb tenantiaeth, trwydded neu brydles. Mae'n rhaid i'ch landlord roi copi i chi. Hefyd dylech dderbyn llawlyfr neu ryw fath o wybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â'ch landlord a'i bolisïau a'i arferion.

Efallai fod gan rai tenantiaid 'hawl i brynu' neu 'hawl i gaffael' eu cartref. Mae'n rhaid i'ch landlord roi gwybod i chi a allwch wneud hyn.

Beth yw'r Warant?

Mae'r Warant yn bwysig.

Gallwch ddefnyddio'r Warant i weld beth y gallwch ei ddisgwyl ac i wneud yn siŵr eich bod yn derbyn y gwasanaeth y dylech fod yn ei dderbyn gan eich cymdeithas tai.

Mae hefyd yn dweud wrthych beth i'w wneud os nad ydych o'r farn bod eich cymdeithas tai yn anrhydeddu'r Warant.

SUT MAE PETHAU'N CAEL EU RHEDEG

Mae pob cymdeithas tai yn cael ei rhedeg gan gorff llywodraethu a elwir yn Fwrdd neu'n Bwyllgor sy'n sicrhau bod y gymdeithas yn cadw at y gyfraith ac yn gweithredu yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'u nodir yng Nghod Rheoleiddio Cymdeithasau Tai a Gofrestrir yng Nghymru. Mae'n gwneud y penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r polisïau y mae'n rhaid i'r gymdeithas tai eu gweithredu.

Rhaid i bob cymdeithas tai sicrhau ei bod mewn sefyllfa gadarn yn ariannol.

Gwelliant parhaus

Rhaid i gymdeithasau tai anelu at sicrhau gwelliant parhaus a gwerth am arian yn eu gwasanaethau. Golyga hyn fod yn rhaid adolygu pob gwasanaeth yn rheolaidd gan gymryd anghenion a dymuniadau'r preswylwyr i ystyriaeth.

Mae'n rhaid i'ch cymdeithas tai roi gwybodaeth i chi ynglŷn â'i pherfformiad a chanlyniadau unrhyw arolygiadau a gynhelir gan y Cynulliad. Dylech dderbyn gwybodaeth yn flynyddol am ganlyniadau adolygiadau ac ynglŷn â pha wasanaethau y bwriedir eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Cyfle cyfartal a pholisïau arallgyfeirio

Rhaid i gymdeithasau tai ddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal yn eu holl weithgareddau a rhaid iddynt weithio i ddileu gwahaniaethu. Rhaid iddynt drin pobl, cymunedau a sefydliadau yn deg gan arddel tegwch yn ogystal wrth ymdrin â hawliau a chyfrifoldebau unigolion. Rhaid iddynt gael polisi ar gyfer hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol a chymryd natur amrywiol eu diwylliant a'u cefndiroedd i ystyriaeth.

Rhaid i gymdeithasau tai gael polisi cyfle cyfartal ac amrywiaeth sy'n ymdrin â holl agweddau cydraddoldeb gan gynnwys hil, crefydd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac oedran. Rhaid iddynt osod targedau a chyflawni gwaith monitro i wneud yn siŵr eu bod yn diwallu anghenion y gymuned a bod yr holl grwpiau wedi'u cynrychioli'n deg drwy'r gymdeithas gyfan.

Gallwch ddisgwyl cael eich trin â thegwch a heb wahaniaethu, a dylai'r holl wasanaethau fod ar gael i'r holl breswylwyr. Fodd bynnag, os credwch y bu gwahaniaethu yn eich erbyn, mae gennych hawl i gwyno i'r Llys Sirol. Dylech geisio cyngor gan gyfreithiwr neu eich canolfan gynghori leol.

Os oes arnoch angen gwasanaethau gofal neu gefnogaeth i'ch cynorthwyo i fyw yn eich cartref, dylid rhoi cymorth priodol i chi ddod i wybod mwy am y gwasanaethau sydd ar gael. Gall hyn gael ei ddarparu gan y gymdeithas tai neu gan asiantaeth arall, er enghraifft Gwasanaethau Cymdeithasol neu ddarparwr cefnogaeth arbenigol.

CAEL EICH AILGARTREFU

Os ydych yn denant, mae nifer o ffyrdd i'ch helpu i symud i eiddo newydd.

Cewch gyfnewid cartref gyda thenant arall ar yr amod bod eich landlord yn cytuno â hynny, neu mae'n bosibl eich trosglwyddo i annedd wag.

Os ydych yn byw mewn tŷ â chymorth, dylid cynnig help i chi symud ymlaen i dŷ heb gymorth pan fydd hynny'n briodol.

Gwneud cais

Dylid cynnig help i chi lenwi ffurflenni os oes arnoch angen hynny. Dylai cymdeithasau tai wneud yn siŵr bod pawb yn deall y ffurflenni a'r wybodaeth. Os ydych yn cael anhawster gyda'r ffurflenni, neu os oes arnoch eu hangen mewn iaith arall, gallwch ofyn i'r gymdeithas am gymorth.

Os ydych yn cael eich derbyn i'ch ailgartrefu, mae'n rhaid i chi gael cyfle i ddweud ymhle y byddech yn dewis byw a/neu y math o lety yr hoffech fyw ynddo. Dylech hefyd gael cynnig dewis o anheddau addas, os yw'r gymdeithas mewn sefyllfa i wneud hynny.

Mae'n rhaid i chi roir gwybodaeth gywir ar eich ffurflen gais. Os ydych yn rhoi gwybodaeth anghywir yn fwriadol, gall y gymdeithas tai gymryd camau yn y Llys yn eich erbyn a gallai eich troi allan o'ch cartref newydd.

Dylech gael gwybodaeth ynglŷn â'r hawliau a'r cyfrifoldebau y byddech yn llofnodi eich bod yn eu derbyn ynghyd ag unrhyw daflenni neu wybodaeth ynglŷn â'r cytundeb newydd y gofynnir i chi ei lofnodi. Darllenwch y rhain yn ofalus gan ystyried a ydych yn dymuno derbyn yr ymrwymiad hwn. Os nad ydych yn siŵr, gallwch gael cyngor gan gyfreithiwr neu eich canolfan gynghori leol.

Os ydych eisiau symud i eiddo lesddaliol neu i eiddo rhan-berchnogaeth dylech gael gwybodaeth ynglŷn â'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau ariannol, a beth fyddai'r brydles neu'r cytundeb yn eich clymu iddo. Ystyriwch yn ofalus a ydych yn dymuno ymrwymo i hyn. Ceisiwch gyngor gan gyfreithiwr neu eich canolfan gynghori leol os nad ydych yn siŵr.

SYMUD I MEWN

Cytundebau meddiannaeth

Mae'n rhaid i chi gael copi ysgrifenedig o'r cytundeb a lofnodwyd gennych. Mae cymdeithasau tai yn cynnig gwahanol fathau o gytundebau. Mae'n rhaid iddynt gynnig cytundeb i chi sy'n cyd-fynd â'r math o dŷ a gynigir a'ch anghenion ailgartrefu chi.

Dylech dderbyn eglurhad ynglŷn â'r math o gytundeb a beth mae'n ei olygu i chi cyn i chi ei lofnodi.

Mae'r cytundeb hwn yn gontract cyfreithiol rhwymol rhyngoch chi a'ch landlord. Mae'n rhaid iddo nodi'n glir:

- eich hawliau a'ch cyfrifoldebau;
- hawliau a chyfrifoldebau eich landlord; a'r
- rhent, taliadau gwasanaeth ac unrhyw daliadau eraill y gallech eu talu, gan gynnwys y dull o'u hadolygu.

Mae'n rhaid i'ch landlord sicrhau nad yw eich cytundeb tenantiaeth yn cynnwys unrhyw delerau annheg. Os ydych yn teimlo bod unrhyw ran o'ch cytundeb yn annheg, dylech gael cyngor gan eich canolfan cyngor tai leol, canolfan cyngor ar bopeth, neu Shelter Cymru (gwelwch dudalennau 18 a 20 am fanylion cyswllt). Os ydych am gwyno am delerau annheg, cewch gysylltu ag adran safonau masnachu eich awdurdod lleol, neu'r Swyddfa Masnachu Teg (gwelwch dudalen 19 am fanylion cyswllt).

Cefnogaeth i'ch helpu i fyw yn eich cartref

Os oes angen cefnogaeth arnoch i'ch helpu i fyw yn eich cartref, dylai eich landlord eich helpu i ddod o hyd i'r gwasanaethau priodol. Gall y gwasanaethau hyn gael eu darparu gan eich landlord, neu gan asiantaethau neu sefydliadau eraill. Dylech gael gwybodaeth ar ddechrau eich tenantiaeth ynglŷn â safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl, y gost, ac unrhyw gymorth a all fod ar gael tuag at y gost.

Os ydych yn byw mewn tŷ â chymorth dylai eich landlord neu ddarparwr cefnogaeth ddweud wrthych pa fath o gymorth y byddwch yn ei gael, ac unrhyw drefniadau eraill y dylech wybod amdanynt, megis rheolau'r tŷ.

Os ydych yn rhannu cyfleusterau, megis cegin neu lolfa, gyda phobl eraill, mae'n rhaid i chi gael gwybod pryd maent ar gael i chi eu defnyddio.

BYW YN EICH CARTREF

Bod yn ddiogel yn eich cartref

Yn gyffredinol, waeth pa fath o gytundeb sydd gennych, mae gennych hawl i aros yn eich cartref am ba gyfnod bynnag a ganiateir yn ôl y cytundeb, cyn belled ag y byddwch yn cadw at yr amodau sydd wedi eu nodi yn eich cytundeb.

Os ydych yn marw, efallai y bydd modd trosglwyddo eich tenantiaeth i rywun arall sydd wedi bod yn cyd-fyw gyda chi fel partner neu gymar. Gofynnwch i'ch cymdeithas tai a yw hyn yn wir yn eich achos chi. Dylai eich cymdeithas tai roi gwybod i chi hefyd am ei pholisi ar denantiaeth ar y cyd.

Dim ond mewn rhai amgylchiadau arbennig y gall eich landlord ofyn i chi adael cyn i'r cytundeb ddod i ben. Mae'n rhaid i chi dderbyn rhybudd ysgrifenedig a bydd raid i'ch landlord wneud cais i'r Llysoedd i'ch troi allan, os nad ydych yn denant sydd â chytundeb trwyddedig sy'n golygu nad oes angen gorchymyn llys.

Os nad ydych yn defnyddio'r eiddo fel eich prif gartref mwyach, gallwch golli eich sicrwydd a gall eich landlord wneud cais i'r Llys i'ch troi allan. Bydd eich cytundeb yn nodi'r amgylchiadau hynny lle gellir dod â'ch tenantiaeth i ben.

Ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir uchod, ni ellir gofyn i chi adael eich cartref oni fyddwch wedi torri unrhyw amodau sydd wedi eu nodi yn eich cytundeb, megis peidio â thalu rhent neu daliadau gwasanaeth, gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu dorri unrhyw amodau eraill.

Ni chaiff eich landlord gymryd camau i'ch troi allan o'ch cartref ond os daw hi i'r pen, pan nad oes yna ddewis arall rhesymol ar gael. Mae gennych hawl i wybod beth yw polisïau eich landlord a sut yr ymdrinnir ag achosion o droi allan.

Os ydych hefyd yn cael cymorth a gofal a bod eich landlord yn cymryd camau i'ch troi allan, rhaid i chi gael cynnig cyngor a chymorth. Dylai eich landlord roi gwybod i'r asiantaethau a'r cyrff sy'n darparu'r gofal ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd.

Tenantiaethau Rhagarweiniol

Mae rhai cymdeithasau tai yn cynnig 'Tenantiaethau Rhagarweiniol'. Gyda'r rhain, ceir cyfnod prawf o ddeuddeg mis ar ddechrau'r denantiaeth. Os yw'r tenant rhagarweiniol yn torri'r cytundeb drwy beidio ag ymddwyn yn briodol neu oherwydd rhyw fater arall megis peidio â thalu'r rhent, gall y landlord ddod â'r denantiaeth i ben ar ddiwedd y cyfnod treialu. Mae'n rhaid i'r gymdeithas fynd i'r Llys i gael caniatâd i wneud hynny, ond nid oes yn rhaid iddynt brofi bod eu cais yn rhesymol, sy'n arferol gyda Thenantiaeth Sicr arferol.

Ar ôl y cyfnod prawf, rhaid i'r gymdeithas roi Tenantiaeth Sicr arferol i'r tenant os nad yw wedi dechrau cymryd camau yn y Llys i geisio meddiant. Mae gan denant rhagarweiniol hawl i ofyn i'w landlord adolygu unrhyw benderfyniad i geisio meddiant. Rhaid i bob tenant rhagarweiniol gael gwybodaeth lawn am ei hawliau ar ddechrau'r denantiaeth.

Sŵn, niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae'n rhaid i'ch landlord weithredu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau i fynd i'r afael â niwsans, aflonyddwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai cytundebau tenantiaeth gynnwys amodau ynglŷn â'r materion hyn a byddant yn berthnasol, nid yn unig i chi, ond hefyd i bobl eraill sy'n byw gyda chi, a phobl sy'n ymweld.

Os ydych yn dioddef niwsans, aflonyddwch neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallwch ofyn i'ch landlord am gymorth a chyngor.

Rheoli eich cartref

Mae'n rhaid i'ch landlord weithredu polisïau ar gyfer yr holl agweddau eraill ar reoli eich cartref, gan gynnwys:

- cadw anifeiliaid anwes;
- beth fydd yn digwydd i'ch tenantiaeth os bydd eich perthynas yn chwalu;
- yr amgylchiadau hynny lle gellir gofyn i chi symud;
- sut y bydd prosiectau tai â chymorth yn cael eu rheoli.

TALU AM EICH CARTREF

Rhent

Mae'n rhaid i gymdeithasau tai osod rhenti mor isel â phosibl, tra'n parhau mewn sefyllfa gadarn yn ariannol a darparu safon uchel o wasanaeth i denantiaid. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro rhenti pob cymdeithas dai er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae rheolau gwahanol ynglŷn â pha mor aml y gellir newid eich rhent a faint o rybudd o hyn y mae'n rhaid i chi ei gael. Dylai eich cytundeb egluro pa reolau sy'n berthnasol i chi, neu gallwch ofyn i'ch landlord. Os ydych wedi trosglwyddo o awdurdod lleol i gymdeithas tai ac y rhoddwyd gwarant rhent i chi, rhaid i'ch landlord anrhydeddu'r warant rhent.

Telir rhent ymlaen llaw fel rheol, ond ni ddylid gofyn i chi dalu mwy na rhent un mis ymlaen llaw.

Mae'n rhaid i'ch landlord roi gwybodaeth i chi ynglŷn â:

- sut y pennir eich rhent;
- y lefelau rhenti ar draws ei holl gartrefi ac ar draws yr ardal leol; a hefyd
- pa mor dda yw eich landlord am gasglu rhent.

Mae'n rhaid rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig ymlaen llaw am unrhyw newidiadau yn eich rhent. Dylech dderbyn rhybudd o 28 diwrnod fan leiaf o unrhyw gynnydd.

Taliadau gwasanaeth

Gellir gofyn i chi dalu taliadau eraill yn ogystal â rhent neu yn lle rhent, megis tâl am gynnal mannau cyffredin. Gelwir y rhain yn daliadau gwasanaeth. Gall y gwasanaethau hyn gael eu darparu gan eich landlord neu gan asiantaethau neu gyrff eraill.

Os ydych yn lesddeiliad neu'n rhan-berchennog, bydd eich prydles yn nodi beth sy'n rhaid i chi ei dalu tuag at y gwasanaethau hyn. Gallant gynnwys cronfa wrth gefn neu gronfa ad-dalu ar gyfer atgyweiriadau neu waith cynnal a chadw sylweddol. Rhaid i unrhyw gyfraniadau tuag at gronfa ad-dalu gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth gan y gymdeithas, gan ddefnyddio'r arian ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn eich prydles yn unig.

Mae'n rhaid i'ch landlord roi gwybodaeth i chi ynglŷn â'r math o daliadau y mae'n rhaid i chi eu talu, pa gostau yr ydych yn talu amdanynt a sut maent yn cael eu gosod. Gallwch archwilio'r cyfrifon y seiliwyd yr wybodaeth hon arnynt, ond efallai y codir tâl arnoch am gael copi o'r rhain. Dylid ymgynghori â chi'n rheolaidd ynglŷn ag ansawdd a gwerth am arian y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn.

Mae'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig i chi o unrhyw newidiadau a chynnydd yn eich taliadau gwasanaeth. Gwiriwch eich cytundeb neu gofynnwch i'ch landlord am y rheolau sy'n berthnasol i chi.

Mewn rhai achosion, efallai bod gennych yr hawl i benodi syrfëwr annibynnol i archwilio dogfennau ac eiddo. Gallwch ofyn i'ch cymdeithas dai a oes gennych yr hawl i wneud hyn.

Os ydych yn cael anhawster talu eich rhent neu daliadau gwasanaeth rhaid i chi gael gwybodaeth a chymorth i ddarganfod pa fudd-daliadau allai fod o gymorth i chi.

Beth os nad ydych yn cytuno â'r rhent a thaliadau eraill?

Mae'n rhaid i'ch landlord roi gwybod i chi am yr hawliau sydd gennych i apelio ynglŷn â'ch rhent a'ch taliadau gwasanaeth; byddwch yn cael yr wybodaeth hon fel rheol pan roddir gwybod i chi ynglŷn â'r cynnydd. Bydd eich hawliau yn dibynnu ar y math o gytundeb yr ydych wedi ei lofnodi. Dylech edrych ar eich cytundeb a gofyn i'ch landlord am wybodaeth ynglŷn â'ch hawliau. Gallwch hefyd ofyn i'ch canolfan leol cynghori ar dai neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, neu gyfreithiwr.

Os ydych yn denant ac yn dymuno apelio ynglŷn â'r rhent, efallai fod gennych hawl i fynd at gorff annibynnol a adwaenir fel y Tribiwnlys Eiddo Preswyl a fydd yn edrych ar sut y gosodir eich rhent, a yw wedi ei osod yn gywir ac yn ystyried a yw'n deg. Bydd yn cymhwyso gwahanol reolau yn ôl y math o gytundeb sydd gennych. Mae'n rhaid i'ch landlord lynu wrth yr hyn a ddywed y pwyllgor, ond gall hyn olygu y gallai eich rhent gynyddu yn ogystal â gostwng.

Mae hawl apelio debyg yn bodoli ar gyfer rhai taliadau gwasanaeth. Gofynnwch i'ch landlord am fanylion neu holwch mewn canolfan gynghori.

Os ydych yn lesddeiliad ac yn credu bod eich cymdeithas tai yn codi am wasanaeth nad oes ganddynt hawl i godi tâl amdano, neu fod y tâl yn afresymol, neu nad yw'r gwasanaeth wedi ei ddarparu i safon sy'n rhesymol, yna gallwch ofyn i Dribiwnlys Prisio Lesddaliadau bennu lefel y tâl.

ATGYWEIRIADAU A GWELLIANNAU

Tenantiaid

Mae'n rhaid i'ch landlord sicrhau bod eich tŷ mewn cyflwr da a'i fod yn ddiogel. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'ch landlord gadw eich tŷ mewn cyflwr gwell na'r safonau gofynnol a bennir gan y gyfraith. Mae'n rhaid iddo fod yn ddiddos rhag y gwynt a'r tywydd, rhaid ei fod wedi ei wresogi'n ddigonol a rhaid i'r cyfleusterau fod yn fodern. Mae'n rhaid i'ch landlord gael polisïau ar gyfer cynnal a chadw eich cartref ac i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio tuag at ddiwallu safonau Llywodraeth y Cynulliad. Gallwch ofyn am gael gweld copïau o'r polisïau hyn.

Bydd gennych chi rywfaint o gyfrifoldeb am gadw eich cartref mewn cyflwr da; bydd eich cytundeb a'ch llawlyfr yn nodi'r hyn yr ydych chi'n gyfrifol amdano. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch landlord.

Os ydych yn denant, mae'n rhaid i'ch landlord gadw adeiladwaith eich cartref mewn cyflwr da a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Chi sy'n gyfrifol am y costau yn sgil unrhyw ddifrod a achosir gennych. Bydd gennych rai cyfrifoldebau eraill hefyd, er enghraifft, peintio a phapuro'r ystafelloedd oddi fewn i'ch cartref. Dylai eich cytundeb tenantiaeth a'ch llawlyfr nodi'r hyn y mae rhaid i chi ei wneud a beth mae eich landlord yn gyfrifol amdano.

Os yw eich cartref wedi ei drosglwyddo o awdurdod lleol, efallai fod addewidion wedi'u rhoi i chi ynglŷn â sut y bydd eich landlord newydd yn cyflawni'r holl atgyweiriadau a'r gwelliannau y mae eu hangen ar draws yr holl gartrefi. Bydd eich copi o'r ddogfen gynnig ffurfiol (y byddwch wedi ei chael cyn i'r cartrefi gael eu trosglwyddo) yn cynnwys y manylion hyn neu gallwch ofyn i'ch landlord.

Mae'n rhaid i'ch landlord weithredu system o ymdrin ag atgyweiriadau sy'n diwallu anghenion a boddhad y preswylwyr. Dylai gynnwys targedau amser ar gyfer ymateb i atgyweiriadau argyfwng, atgyweiriadau brys ac atgyweiriadau arferol. Dylech gael gwybodaeth ynglŷn â sut i ofyn am atgyweiriadau, manylion ynglŷn â dyddiadau cwblhau'r atgyweirio a manylion ynglŷn â pherfformiad yn erbyn y targedau hynny.

Rhoi gwybod am atgyweiriadau y mae angen eu gwneud

Dylech rhoi gwybod i'r gymdeithas yn ddi-oed os oes angen gwneud atgyweiriadau ac mae'n rhaid i chi ganiatáu mynediad rhesymol i'ch landlord i archwilio a gwneud atgyweiriadau, yn arbennig, i wneud gwiriadau diogelwch blynyddol ac i wasanaethu peirianwaith nwy ac offer gwresogi. Efallai fod eich landlord yn gweithredu system apwyntiadau i wneud atgyweiriadau. Gofynnwch am fanylion.

Gwaith mawr

Dylech gael gwybodaeth an unrhyw gynlluniau hildymor i wneud gwaith cynnal a chadw mawr neu welliannau, megis adnewyddu ffenestri, ail-doi neu beintio'r tu allan. Dylid ymgynghori â chi ynglŷn â'r gwaith ac a fydd y gwelliannau'n golygu y bydd raid i chi dalu rhent uwch neu daliadau gwasanaeth uwch. Mae'n rhaid rhoi gwybod i chi sut y bydd yn effeithio arnoch cyn i'r gwaith ddechrau.

Gwneud eich gwelliannau eich hun

Efallai fod modd i chi wneud rhai gwelliannau i'ch cartref eich hun, megis gosod ystafell ymolchi neu gegin newydd. Bydd eich cytundeb tenantiaeth, eich prydles neu'ch llawlyfr yn nodi'r hyn y gallwch ei wneud a beth sy'n rhaid i chi ei wneud cyn dechrau unrhyw waith. Dylech gael caniatâd eich landlord yn y lle cyntaf, ond ni ellir gwrthod hyn heb reswm da. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i rai tenantiaid, megis y rhai sydd mewn anheddau arbennig ac sy'n cael cymorth a gofal. Gofynnwch i'r landlord am ragor o wybodaeth.

Hawlio iawndal

Efallai y bydd gennych hawl i dderbyn iawndal os bydd eich landlord yn methu â chyflawni gwaith atgyweirio, y rhoddwyd rhybudd iddo ohono, o fewn y targed amser, yn enwedig os yw'r atgyweiriad yn effeithio ar eich iechyd neu eich diogelwch. Gall eich landlord bennu uchafswm ar gyfer atgyweiriad o'r fath cyn i iawndal fod yn berthnasol o dan y polisi hwn. Gofynnwch i'ch landlord am fanylion neu cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Os ydych yn denant a bod rhaid i chi adael eich cartref dros dro er mwyn i'r atgyweiriadau neu'r gwelliannau gael eu gwneud, dylech gael cynnig llety arall dros dro ac efallai y gallwch hawlio lwfans tarfu hefyd.

Os ydych yn gorfod symud allan yn barhaol, efallai fod gennych hawl i daliad colli cartref.

Os ydych yn denant ac wedi gwneud eich gwelliannau eich hun, ar yr amod eich bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig cyn gwneud y gwelliannau hynny a'u bod yn bodloni safonau'r gymdeithas tai, efallai y gallwch hawlio iawndal am y gwaith a gyflawnwyd gennych pan fyddwch yn rhoi'r gorau i'r denantiaeth.

Mae'n rhaid i'ch landlord roi gwybodaeth i chi ynglŷn â beth y gallwch ei hawlio a sut i hawlio.

Lesddeiliaid a rhan-berchenogion

Os ydych yn brydleswr neu'n rhan-berchennog, rhestrir eich cyfrifoldebau chi a chyfrifoldebau'r gymdeithas tai yn eich prydles, a dylech gael llawlyfr i roi arweiniad i chi.

Os ydych yn byw mewn tŷ, eich cyfrifoldeb chi fel rheol yw cadw'r tŷ cyfan mewn cyflwr da. Efallai y bydd y landlord yn gyfrifol am atgyweirio diffygion yn adeiladwaith gwreiddiol y tŷ yn unig.

Os ydych yn byw mewn fflat, bydd y landlord yn cynnal y tu allan, y mannau a rennir a'r adeiladwaith fel rheol, tra bo rhaid i chi gynnal y tu mewn i'ch cartref mewn cyflwr da. Codir tâl arnoch am eich cyfran o gost yr atgyweiriadau a wneir gan eich landlord.

Gwaith sylweddol ar gyfer lesddeiliaid a rhan-berchenogion

Mae gan lesddeiliaid hawliau cyfreithiol sy'n golygu bod rhaid ymgynghori â hwy ynglŷn â gwaith sylweddol, y bydd rhaid iddynt dalu amdano drwy daliadau gwasanaeth. Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth i chi a gofyn am eich sylwadau ynglŷn ag unrhyw gynlluniau hirdymor i gyflawni gwaith cynnal a chadw sylweddol, megis ail-doi, adnewyddu'r ffenestri neu ail-addurno'r tu allan. Dylech gael o leiaf mis i gyflwyno eich sylwadau ar y cynlluniau a'r amcangyfrif o gostau, ac mewn rhai achosion efallai y caniateir i chi gynnig contractwyr ar gyfer y rhestr dendro. Gofynnwch i'ch landlord a yw hyn yn berthnasol i chi. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn bosibl i'ch landlord ostwng y taliadau gwasanaeth am waith sydd wedi ei ariannu mewn ffyrdd penodol. Efallai y bydd gennych hawl hefyd i gael benthyciad i'ch helpu i dalu eich cyfraniad chi tuag at gost unrhyw atgyweiriadau mawr. Gallwch ofyn i'ch landlord am gyngor ar hyn.

Os bwriedir gwneud gwelliannau a fydd yn golygu y bydd rhaid i chi dalu mwy, mae'n rhaid dweud wrthych faint. Mewn rhai amgylchiadau, efallai fod modd i chi herio'r taliadau hyn mewn Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau.

GWYBODAETH

Gwybodaeth a ddarperir gan eich landlord

Mae'n rhaid i gymdeithasau tai ddarparu gwasanaethau o ansawdd ar gyfer preswylwyr, ac mae'n rhaid iddynt gynnig safonau uchel o ofal cwsmer. Disgwylir hefyd iddynt fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw yn eu dull o weithredu.

Golyga hyn y dylent roi gwybodaeth i chi ynglŷn â'u ffordd o wneud pethau a'r polisïau a weithredir ganddynt. Efallai y cewch hyn mewn llawlyfr neu mewn taflenni a ysgrifennwyd gan eich cymdeithas tai. Gallwch ofyn am gopïau os nad oes gennych rai eisoes.

Mae'n rhaid i gymdeithasau tai fod yn atebol i'w preswylwyr. Felly, dylech ddisgwyl cael gwybodaeth, o leiaf unwaith y flwyddyn, ynglŷn â gweithgareddau eich landlord, ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol, a pha mor dda mae'n perfformio yn erbyn ei dargedau.

Dylech ddod o hyd i'r wybodaeth hon mewn adroddiadau blynyddol, adroddiadau perfformiad ac archwiliad, cylchlythyrau a deunydd hysbysebu.

Dylai'r holl wybodaeth fod mewn iaith glir ac yn hawdd i'w darllen. Dylid ei darparu mewn gwahanol ffyrdd er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn ystyrlon ac y gall yr holl breswylwyr ei deall.

Dylai cymdeithasau tai gynnig gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Gall lefel y gwasanaeth hwn amrywio o ardal i ardal, yn ôl faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn lleol. Hefyd dylai cymdeithasau tai fod yn fodlon cynnig cyfleusterau cyfieithu i gwsmeriaid sy'n siarad ieithoedd cymunedol eraill, os ydynt yn cael anhawster deall llenyddiaeth y gymdeithas neu wrth gyfathrebu â'r staff.

Cael rhagor o wybodaeth

Os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel tenant, lesddeiliad neu ran-berchennog, beth y gallwch ei hawlio a sut i ddefnyddio eich hawliau, dylech gysylltu â'ch landlord. Efallai fod yr wybodaeth hon yn eich cytundeb tenantiaeth neu brydles, mewn llawlyfr neu daflenni a deunydd a ddarperir gan eich landlord. Bydd eich hawliau yn dibynnu ar y math o gytundeb sydd gennych a pha fath o annedd yr ydych yn byw ynddo.

Cyfrinachedd a chael mynediad i wybodaeth a gedwir amdanoch

Mae'n rhaid i'r wybodaeth a gedwir gan eich landlord amdanoch gael ei chadw'n saff ac yn ddiogel. Mae'n rhaid ei chadw'n gyfredol a'i dileu pan nad oes ei hangen mwyach.

Os hoffech weld gwybodaeth am eich tenantiaeth, dylech ofyn i'ch landlord. Efallai y gofynnir i chi lenwi ffurflen a thalu ffi. Dylai eich landlord egluro wrthych sut y gallwch weld eich gwybodaeth bersonol a rhaid iddo ei darparu mewn ffordd glir. Efallai na fydd eich landlord yn caniatáu i chi weld gwybodaeth benodol, er enghraifft, os rhoddwyd yr wybodaeth honno yn gyfrinachol gan drydydd parti.

Os yw eich landlord yn gwrthod rhoi gwybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor. (Gwelwch dudalen 16 am fanylion cyswllt).

Os ydych yn anghytuno ag unrhyw wybodaeth a gedwir amdanoch, mae gennych hawl i'w chywiro neu i gofnodi eich anghytundeb.

Ni all cymdeithasau tai drosglwyddo gwybodaeth amdanoch ymlaen i bobl neu gyrff eraill ond os rhoddwyd caniatâd iddynt wneud hynny gennych chi neu oni fo'r gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Newid eich hawliau

Ni ellir newid rhai cytundebau tenantiaeth ac eithrio yn dilyn ymgynghoriad a chyda chytundeb y tenantiaid dan sylw.

Yn achos lesddeiliaid a rhan-berchenogion, yn gyffredinol ni ellir newid telerau prydles dim ond gyda'ch cymeradwyaeth chi. Ond gall llys orfodi'r newidiadau os na allwch chi gytuno iddynt.

YMGYNGHORI A CHYMRYD RHAN

Mae'n rhaid i gymdeithasau tai sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu llunio o gwmpas anghenion cwsmeriaid a rhaid iddynt geisio barn eu preswylwyr ac ymateb i'r sylwadau hynny.

Mae'n rhaid i'ch cymdeithas tai ymgynghori â chi os yw'n ystyried gwneud newidiadau i drefniadau'r gwasanaeth rheoli a'r gwasanaeth chynnal a chadw ar gyfer eich cartref, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'w statws (er enghraifft, newid o fod yn gymdeithas nad yw'n elusennol i fod yn gymdeithas elusennol) neu unrhyw weithgaredd sy'n golygu newid landlord.

Rhaid caniatáu i'r holl breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a rhaid rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn y dull o redeg gwasanaethau a gosod safonau.

Dylai cymdeithasau tai gynnig amrywiol ffyrdd o ymgynghori â phreswylwyr ac o dderbyn adborth ganddynt. Dylai eich cymdeithas sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhoi i chi ynglŷn â'r materion dan drafodaeth mewn ffordd sy'n glir, yn hawdd i'w deall ac o fewn cyrraedd yr holl breswylwyr.

Dylai cymdeithas dai gynnig cyfle i breswylwyr gael dweud eu dweud ac i gymryd rhan ym mha ffordd bynnag sydd orau ganddynt. Dylai'ch landlord roi gwybodaeth i chi am sut y gallwch chwarae rhan, a beth mae'r gymdeithas yn ei wneud gyda'r adborth a roddwch.

Dylai cymdeithasau tai gynorthwyo ac annog sefydliadau tenantiaid a phreswylwyr sy'n eu cynrychioli.

Cytundebau Cyfranogiad

Dylai eich landlord hefyd geisio datblygu a llunio cytundeb gyda phreswylwyr ynglŷn â sut y gallwch gymryd rhan a sut i ymgynghori â chi, y ffordd y bydd hyn yn gweithio a sut y bwriedir monitro ac adolygu'r cytundeb i'w gadw'n gyfredol. Gallwch ofyn i'ch landlord am fanylion.

Dylech gael eich annog a'ch cefnogi a chael cyngor er mwyn i chi gael yr wybodaeth a'r sgiliau i'ch helpu i gymryd rhan effeithiol yn y broses o redeg eich cartref a'ch cymdogaeth. Dylai eich landlord roi gwybodaeth i chi ynglŷn â sut i ymgeisio am unrhyw grantiau sydd ar gael i'r diben hwn.

Dod yn Gyfranddaliwr

Dylai cymdeithasau tai fod â pholisi ynglŷn â phwy all fod yn aelod o'r gymdeithas sy'n meddu ar gyfranddaliadau. Os hoffech fod yn aelod, dylid ystyried eich cais yn ôl ei haeddiant, yn unol â thelerau'r polisi aelodaeth.

GWNEUD CWYN

Yn y lle cyntaf

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd y cawsoch eich trin neu'r gwasanaeth rydych wedi'i gael, gallwch wneud cwyn i'ch landlord.

Mae'n rhaid i bob cymdeithas dai gael polisi cwynion ac iawndal effeithiol.

Dylech gael gwybodaeth ynglŷn â sut i gwyno, wrth bwy i gwyno iddo a beth mae'n ei olygu. Gall yr wybodaeth hon fod yn eich llawlyfr neu mewn taflen y gallwch gael copi ohoni gan eich landlord.

Dylai'r polisi a'r weithdrefn fod yn glir ac yn hawdd i'w dilyn a dylent ganiatáu i chi fynd â'r gŵyn at y bobl sy'n rheoli eich cymdeithas tai, gan gynnwys y corff llywodraethu.

Pethau eraill y gallwch eu gwneud

Os ydych wedi bod drwy bob cam o drefn gwyno eich landlord, ac yn parhau'n anfodlon, gallwch gwyno ynglŷn â safonau'r gwasanaeth a'r perfformiad a ddarperir gan y gymdeithas tai i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawl i gwyno wrth eich landlord neu'ch canolfan cynghori leol, neu gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn uniongyrchol yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pen-coed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
e.bost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Gallwch godi materion hefyd gyda'ch Cynghorydd, eich Aelod Cynulliad (AC) neu'ch Aelod Seneddol (AS).

Os yw eich cwyn yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, rhyw neu anabledd gallwch hefyd fynd at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am gymorth. (Gweler tudalen 16 am fanylion cyswllt).

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Anabledd Cymru Nod Anabledd Cymru yw rhoi grym i bobl anabl ac mae'n darparu gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion, o fudd-daliadau i broblemau mynediad i adeiladau.	Wernddu Court Parc Busnes Caerffili Van Road Caerffili CF83 3ED Rhif Ffôn: 029 2088 7325 Gwefan: *www.dwac.demon.co.uk* E-bost: *info@dwac.demon.co.uk*
Canolfannau Cyngor ar Bopeth Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol, diduedd ac annibynnol ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys materion tai, cyfreithiol a budd-daliadau. Edrychwch yn yr Yellow Pages neu ffoniwch y cyfeiriad gyferbyn i gael gwybod sut i gysylltu â'ch canolfan CAB agosaf.	Quebec House Castlebridge 5-19 Cowbridge Road East Caerdydd CF11 9AB Rhif Ffôn: 08701 264028 Gwefan: *www.nacab.org.uk*
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	3ydd Llawr 3 Callaghan Square Caerdydd CF10 5BT Rhif Ffôn: 0845 604 8810 Rhif Ffacs: 029 2044 7712 E.bost: *wales@equalityhumanrights.com* Gwefan: *www.equalityhumanrights.com*
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yw'r corff cenedlaethol ar gyfer tenantiaid a phreswylwyr Cynghorau a chymdeithasau tai. Mae'n cyflwyno barn tenantiaid ar faterion polisi i'r llywodraeth, ac yn cefnogi Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr unigol gyda chyngor a grantiau cychwynnol.	Rhif Ffôn: 029 2023 7303 Gwefan: *www.tpascymru.org.uk* E-bost: *enquirie@tpascymru.org.uk* Milbourne Chambers Glebeland Street Merthyr Tudful CF47 8AT Rhif Ffôn: 01685 723922 Gwefan: *www.welshtenantsfed.org* E-bost: *enquiries@welshtenantsfed.org.uk*

Gwasanaeth Cynghorol Cyfrainogiad Tenantiaid Cymru Mae Gwasanaeth Cynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru yn gweithio gyda thenantiaid a landlordiaid. Mae'n helpu cymdeithasau tenantiaid i gynllunio ac i gael tenantiaid i gymryd rhan, ac i ddatblygu cymdeithasau tenantiaid effeithiol sy'n atebol.	2il Lawr Transport House 1 Cathedral Road Caerdydd CF11 9SD Rhif Ffôn: 029 2023 7303 Rhif Ffacs: 029 2034 5597 Gwefan: *www.tpascymru.org.uk* E-bost: *enquiries@tpascymru.org.uk*
Shelter Cymru Mae Shelter Cymru yn rhoi cyngor annibynnol ar faterion tai drwy wasanaethau lleol ledled Cymru, a thrwy 'Shelterline', sef llinell gymorth ddi-dâl 24 awr ar gyfer trafod materion tai.	25 Walter Road Abertawe SA1 5NN Rhif Ffôn: 0845 075 5005 Shelterline: 0808 800 4444 Rhif Ffacs: 01792 460050 Gwefan: *www.sheltercymru.org.uk*
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae dyletswyddau'r Comisiynydd yn cynnwys ymdrin ag ymholiadau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth a hyrwyddo ymdrin â gwybodaeth yn dda.	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer SK9 5AF Rhif Ffôn: 01625 545 745 Gwefan: *www.ico.gov.uk* E-bost: *mail@ico.gsi.gov.uk*
Swyddfa Masnachu Teg Mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn chwarae rhan amlwg o ran hyrwyddo a diogelu buddiannau defnyddwyr ledled y DU, ac o ran sicrhau bod busnesau yn deg a chystadleuol.	Zone 1S/4 Fleetbank House 2-6 Salisbury Square Llundain EC4Y 8JX Llinell Cymorth i Ddefnyddwyr: 08457 22 44 99 Gwefan: *www.oft.gov.uk* E-bost: *enquries@oft.gsi.gov.uk*

Tai Pawb Cenhadaeth Tai Pawb yw "Hybu Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym maes Tai yng Nghymru". Mae'r corff yn hybu saith maes cydraddoldeb ym maes tai sef; Oed, Anabledd, Rhywedd, Hunaniaeth o ran Rhywedd, Hil a Chenedligrwydd, Crefydd neu Gred a Chyfeiriadedd Rhywiol. Mae gwasanaethau Tai Pawb yn cynnwys trefnu Seminarau Cydraddoldeb Tai a Cyfarfodydd Cydraddoldeb ar waith, hyfforddiant, cymorth rheoli prosiectau, briffiadau arferion da ac adborth ar strategaethau a chynlluniau tai cenedlaethol a lleol. Mae'r corff yn cynhyrchu e-grawn ddwywaith y flwyddyn ac yn trefnu Ymweliad Astudio Blynyddol er mwyn i'r aelodau weld arferion da ar waith. Trefnir bod y gwasanaethau hyn ar gael i aelodau Tai Pawb (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig), yr Awdurdodau Lleol, Unigolion, cyrff y Trydydd Sector a Buddiannau Tai Eraill fel rhan o fantais eu haelodaeth.	8 Coopers Yard Llawr Daear Centre Court Curran Road Caerdydd CF10 5NB Ffôn: 029 2053 7630 Ffacs: 029 2066 56987 Gwefan: *www.taipawb.ord* E-bost: *inflo@taipawb.orb*
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru Gall Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru eich cynghori ar sut i wneud cais i Bwyllgor Asesu Rhenti neu Dribiwnlys Prisio Lesddaliadau.	Llawr 1af, West Wing Southgate House Stryd Wood Caerdydd CF11 EW Rhif Ffôn: 029 2023 1687 Gwefan: *www.housing.wales.gov.uk*

Yr holl gyfeiriadau a manylion cyswllt yn gywir ar Chwefror 2004.